



Cyngor Sir Powys  
Neuadd Y Sir  
Llandrindod Wells  
Powys  
LD1 5LG

Dyddiad: 11 Rhagfyr 2020

Annwyl Riant / Gofalwr,

Unwaith eto, diolch am eich cefnogaeth yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn o argyfwng iechyd cyhoeddus.

Mae cyfraddau heintio ar y lefelau uchaf erioed ac mae angen i bob un ohonom chwarae ein rhan i reoli'r sefyllfa hon a hynny'n gyflym. Os bydd heintiau'n parhau i godi ar y gyfradd bresennol yna mae perygl gwirioneddol y bydd y system leol yn cael ei llethu dros gyfnod y Nadolig.

O ganlyniad i gyngor y Prif Swyddog Meddygol yng Nghymru dros nos, bydd ysgolion uwchradd ledled Cymru yn newid i ddysgu ar-lein o ddydd Llun 14 Rhagfyr 2020.

Yn dilyn sylwadau gan benaethiaid ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion, ac ystyriaeth o ffigurau presenoldeb ac yn enwedig y rheol 10 diwrnod ar hunanynysu cyn y Nadolig, mae Cyngor Sir Powys wedi penderfynu symud ysgolion cynradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion i ddysgu cyfunol.

Bydd hyn yn digwydd o ddydd Mawrth 15 Rhagfyr 2020. Dyma'r peth iawn i'w wneud i'n hysegu ysgolion cynradd ac arbennig a'n hunedau cyfeirio disgyblion o ystyried yr amgylchiadau presennol.

Bydd safleoedd ysgolion cynradd, arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yn parhau ar agor tan ddydd Gwener 18 Rhagfyr ar gyfer ein dysgwyr sy'n agored i niwed gan gynnwys disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Bydd darpariaeth hefyd ar gyfer plant sydd â rhiant sy'n gweithio yn y GIG neu mewn gofal cymdeithasol ac sy'n methu gwneud trefniadau eraill o fewn eu haelwyd estynedig.

Bydd cludiant i'r ysgol yn parhau fel arfer tan ddydd Gwener 18 Rhagfyr.

Hoffwn bwysleisio bod angen i'ch plentyn i fod gartref ac yn dysgu tan 18 Rhagfyr. Mae'n hanfodol nad yw plant sydd ddim yn yr ysgol yn mynd allan i gyfarfod â grŵpiau o ffrindiau ond eu bod yn aros gartref ac yn cadw'r cyswllt cyn lleied â phosibl. Mae cyfraddau'r coronafeirws ym Mhowys yn cynyddu a bydd y sefyllfa'n gwaethygu os yw plant a phobl ifanc yn mynd allan ac yn cymysgu.

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

[www.powys.gov.uk](http://www.powys.gov.uk)



Mae hwn wedi bod yn benderfyniad anodd ei wneud ond yn un y gobeithiwn y gall rhieni a gofalwyr ei ddeall.

Gwnewch eich rhan i ymladd y coronafeirws ac i gadw eich hun a'ch teuluoedd yn ddiogel.

Y Cyngorydd Phyl Davies  
Aelod y Cabinet ar faterion Addysg ac Eiddo

Geraint Rees  
Arweinydd Strategol Addysg

Lynette Lovell  
Prif Swyddog Addysg Dros Dro

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

[www.powys.gov.uk](http://www.powys.gov.uk)